



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth cyllid i fyfyrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20

Dyddiau cyhoeddi: 19 Rhagfyr 2018
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 1 Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Newidiadau i'r Pecyn Cymorth Cyllid i Fyfrwyr yn ystod Blwyddyn Academaidd 2019/20

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar newidiadau arfaethedig penodol i'r pecyn cymorth cyllid i fyfrwyr yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20.

Sut i ymateb Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod erbyn **1 Chwefror 2019** fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion cyswllt I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Addysg Uwch
Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: HEDConsultationsMailbox@llyw.cymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu

0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys

	Tudalen
Beth yw'r prif faterion?	2
Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?	3
Yr achos o blaid newid	5
Ein cynnig	6
Effaith	11
Gweithredu	11
Ein cwestiynau	12

Beth yw'r prif faterion?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n cychwyn cwrs addysg uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, ac maent yn gofyn am safbwyntiau ar newidiadau i'r polisi presennol. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw xx Ionawr 2019.

Y newidiadau yw:

- categori newydd o berson sy'n gymwys i dderbyn cymorth i fyfyrwyr – y rhai â chaniatâd Adran 67 i ddod i'r DU neu aros yn y DU; a
- newidiadau i ddynodi cyrsiau yn Lloegr.

Nid yw'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn gwneud darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig.

Hefyd, mae newidiadau'n cael eu gwneud i gyfraddau'r cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr. Cyhoeddir y newidiadau hyn mewn Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, sydd ar gael yn

<https://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk/y-marferwyr/gwybodaeth-polisi/hysbysiadau-gwybodaeth.aspx>.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para am chwe wythnos. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad o ddiddordeb cymharol gul ac arbenigol yn unig. Croesewir ymatebion erbyn xx Ionawr 2019.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Categori newydd o berson cymwys

Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd y Swyddfa Gartref gategori newydd o ganiatâd cyfyngedig i ddod i'r DU neu aros yn y DU – caniatâd Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ('caniatâd Adran 67') – ar gyfer plant ar eu pennau eu hunain sydd wedi trosglwyddo i'r DU nad ydynt yn gymwys i gael caniatâd i aros o dan y Rheolau Mewnfudo presennol fel ffoaduriaid neu fathau eraill o ganiatâd seiliedig ar ddiogelu. Cyfeirir at hyn fel 'diwygiad Dubs', a'i nod yw cynorthwyo plant ar eu pennau eu hunain ('plant Dubs'). Bydd unigolion sy'n gymwys ar gyfer caniatâd Adran 67 yn cael yr hawl i astudio, gweithio, derbyn arian cyhoeddus (hawlio budd-daliadau a chymorth tai) a gofal iechyd, a gwneud cais am ganiatâd amhenodol i aros ar ôl pum mlynedd. Mae caniatâd Adran 67 yn cael ei ddisgrifio yn y Rheolau Mewnfudo (rheolau 352ZG – 352ZS). Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi rhagor o ganllawiau ar y newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo.

Er mwyn bod yn gymwys i drosglwyddo i'r DU, mae'n rhaid bod plant Dubs wedi bod yn bresennol yn Ewrop cyn 18 Ionawr 2018. Hefyd, yn dilyn asesiad unigol, mae'n rhaid penderfynu mai symud i'r DU sydd orau i'r plentyn, yn hytrach nag aros yn y wlad sy'n ei gynnal ar hyn o bryd, cael ei drosglwyddo i aelod-wladwriaeth arall, neu gael ei aduno â'i deulu y tu allan i Ewrop.

Bydd plant dibynnol plant Dubs yn cael caniatâd i ddod i'r DU neu aros yn y DU dros yr un cyfnod â'u rhiant cyn belled â bod gofynion penodol yn cael eu bodloni. Ystyr plentyn yw unigolyn dan 18 oed y mae gan y person gyfrifoldeb rhiant amdano.

Mae'r rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru yn gwneud darpariaeth ar gyfer nifer o gategoriâu preswyllo, ond nid ydynt yn cynnwys pobl â chaniatâd Adran 67.

Newidiadau i ddynodi cyrsiau yn Lloegr

Mae cyrsiau'n cael eu dynodi mewn ffordd sy'n sicrhau bod myfyrwyr cymwys yn gallu derbyn cymorth i'w dilyn. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gael sicrwydd bod mesurau diogelu priodol ar waith ar gyfer myfyrwyr a phwrs y wlad, a bod cynlluniau effeithiol ar gyfer rhoi blaenoriaethau polisi ar waith wedi'u gwneud cyn dynodi cwrs, yn enwedig o safbwynt ehangu mynediad. Mae Gweinidogion Cymru yn rheoleiddio darparwyr yng Nghymru er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae system reoleiddio Llywodraeth y DU yn darparu sicrwydd tebyg ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn Lloegr.

Tan 2017, roedd cyrsiau israddedig llawn amser a rhan-amser gan ddarparwyr a oedd yn derbyn arian cyhoeddus yn Lloegr yn cael eu dynodi gan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr - sef 'dynodiad awtomatig'. Ar ôl 2017, roedd cyrsiau israddedig llawn amser a gynigiwyd gan ddarparwyr a oedd yn cael eu cynnal neu eu cynorthwyo gan grantiau rheolaidd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr

('HEFCE') yn cael eu dynodi'n awtomatig. Mae cyrsiau rhan-amser i israddedigion, cyrsiau Meistr ôl-radd a chysiau doethur sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus yn cael eu dynodi'n awtomatig, felly hefyd cyrsiau ôl-radd at ddibenion darparu Grantiau i Fyfywyr Anabl. Gall darparwyr sy'n cynnig cyrsiau nad ydynt yn cael eu dynodi'n awtomatig wneud cais am ddynodi eu cyrsiau - cyfeirir at hyn fel dynodiad penodol.

Mae'r Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil (HERA) yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefydlu'r Swyddfa Fyfywyr. Mae'r Swyddfa Fyfywyr yn newid y dull o ddynodi cyrsiau yn Lloegr, sy'n golygu bod angen newid sut mae cyrsiau'n cael eu dynodi gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i'r Swyddfa Fyfywyr greu a chadw cofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr ('y Gofrestr'), a gellir ei rhannu'n adrannau gwahanol ar sail categorïau cofrestru gwahanol a bennir gan y Swyddfa Fyfywyr. Mae'r Swyddfa Fyfywyr wedi dechrau cyhoeddi'r Gofrestr ac mae wrthi'n cofrestru darparwyr addysg uwch ar gyfer 2019/20 ymlaen.

Mae dwy ran i'r Gofrestr: i) Darparwyr cymeradwy (terfyn ffioedd) a ii) Darparwyr cymeradwy. Mae'r rhan Darparwyr Cymeradwy (terfyn ffioedd) o'r Gofrestr yn rhannu darparwyr ymhellach ar sail a oes ganddynt Gynllun Mynediad a Chyfranogiad ai peidio. Cynllun Mynediad a Chyfranogiad yw cynllun sy'n cydymffurfio ag adrannau 30 i 32 o HERA. Gall darparwyr â Chynllun Mynediad a Chyfranogiad godi ffioedd uwch, hyd at uchafswm cyfreithiol, na darparwyr nad oes ganddynt gynllun, ar gyfer rhai cyrsiau penodol. Bydd Llywodraeth y DU yn darparu cymorth gyda ffioedd i fyfyrwyr yn unol â hynny. Mae darparwyr ar y Gofrestr yn cael eu rheoleiddio gan y Swyddfa Fyfywyr. Mae Llywodraeth y DU yn dynodi pob cwrs ar y Gofrestr yn awtomatig.

Dylai ymatebwyr nodi *nad yw'r* cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio ar ddynodi darparwyr cyrsiau yng Nghymru.

Yr achos o blaid newid

Categori newydd o berson cymwys

Y sail resymegol ar gyfer gwneud y newid yw galluogi personau â chaniatâd adran 67 i aros i gael eu hystyried yn fyfyrwyr cymwys at ddibenion cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru, ac i statws ffioedd cartref a ffioedd dysgu wedi'u capio fod yn berthnasol yn yr un modd ag y maent yn berthnasol i fyfyrwyr cymwys eraill. Mae hyn yn parhau â'r polisi hirdymor o drin ffoaduriaid ac eraill â chaniatâd i ddod i'r DU neu aros yn y DU fel pobl sy'n gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, sy'n golygu bod modd iddynt ymgymryd ag addysg uwch gyda'r holl fanteision a ddaw yn sgil hynny. Yn ogystal, trwy wneud y newid hwn, bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (sy'n gwneud yr un newid) yn trin y grŵp hwn yn gyfartal.

Newidiadau i ddynodi cyrsiau yn Lloegr

Y polisi presennol yw dynodi'n awtomatig gyrsiau israddedig llawn-amser darparwyr yn Lloegr sy'n cael eu cynnal neu eu cynorthwyo gan grantiau rheolaidd gan HEFCE ar gyfer cyrsiau sy'n cychwyn ar 1 Medi 2017 neu ar ôl hynny. Ar gyfer cyrsiau a gychwynnodd cyn hynny, y polisi yw dynodi'n awtomatig gyrsiau darparwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus. Mae cyrsiau rhan-amser a chyrsiau ôl-radd a ddarperir gan ddarparwyr sy'n derbyn arian cyhoeddus yn cael eu dynodi'n awtomatig.

Mae angen dull newydd o roi'r polisi presennol ar waith yn sgil cyflwyno Cofrestr y Swyddfa Fyfyrwyr.

Ein cynnig

Categori newydd o berson cymwys

Cynigir cynnwys categori preswyllo newydd yn y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr fel bod unigolion sy'n cael caniatâd i aros o dan Adran 67 o Ddeddf Ymfudo 2016 yn fyfyrwyr cymwys at ddibenion cymorth i fyfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer cyrsiau israddedig, cyrsiau Meistr ôl-radd a chysiau doethur.

Mae angen categori newydd ar gyfer y rhai â chaniatâd Adran 67 a'u plant dibynnol er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr. At ddibenion y categori cymhwysedd hwn, ystyr plentyn dibynnol yw plentyn o dan 18 oed y mae gan y person â chaniatâd Adran 67 gyfrifoldeb rhiant amdano.

Bydd statws ffoadur neu ddiogelwch dyngarol wedi'u gwrthod i'r rhai sy'n derbyn caniatâd Adran 67 i aros. O ganlyniad, ni fyddant yn perthyn i'r un o'r categorïau preswyllo presennol a bydd angen categori newydd.

Bwriad y polisi yw sicrhau bod y rhai sy'n cael caniatâd i aros yn gymwys ar gyfer cymorth israddedig ac ôl-radd o 2019 ymlaen, yn ogystal â statws ffioedd cartref a ffioedd dysgu wedi'u capio. O ganlyniad, bydd angen diwygio nifer o offerynnau statudol.

Yn ogystal â chael caniatâd Adran 67 i aros, mae'n rhaid i'r myfyriwr:

- breswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- phreswyllo'n gyfreithiol fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

Newidiadau i ddynodi cyrsiau yn Lloegr

Cynigir y dylai cyrsiau israddedig llawn amser a rhan-amser, cyrsiau Meistr ôl-radd a chysiau doethur a gyflenwir gan ddarparwyr yn Lloegr gael eu dynodi'n awtomatig gan Weinidogion Cymru os yw'r darparwr yn perthyn i'r categori Cymeradwy (terfyn ffioedd) gyda Chynllun neu Ddatganiad Mynediad a Chyfranogiad, felly hefyd cyrsiau ôl-radd at ddibenion darparu Grantiau Myfyrwyr Anabl. Mae Cynlluniau Mynediad a Chyfranogiad yn pennu sut y bydd darparwyr addysg uwch yn gwella cyfle cyfartal fel bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gallu cael mynediad at addysg uwch, llwyddo a chamu ymlaen ar ôl cwblhau eu cyrsiau. Mae'n rhaid i bob darparwr sy'n dymuno ymddangos yn y Gofrestr gyhoeddi Datganiadau Mynediad a Chyfranogiad, gan nodi ymrwymiad i helpu myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael mynediad at addysg. Mae hyn yn darparu cysondeb o ran polisi - mae'r darparwyr hyn yn destun mesurau rheoleiddio priodol, terfyn ffioedd ac ymrwymiad i ehangu cyfranogiad.

Bydd darparwyr addysg uwch nad ydynt yn perthyn i'r categori Cymeradwy (terfyn ffioedd) yn gallu gwneud cais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) am 'ddynodiad penodol' yn unol â'r polisi sydd wedi'i sefydlu. Os caiff dynodiad penodol ei ganiatáu, mae'n bosibl y bydd myfyrwyr sy'n astudio'r cyrsiau hyn ac sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r trefniadau dynodi arfaethedig ar gyfer darpariaeth sefydliadau a darpariaeth wedi'i dilysu. Ystyr darpariaeth wedi'i dilysu yw darpariaeth a gyflenwir gan ddarparwr lle mae'r dyfarniad wedi'i ddilysu gan ddarparwr â phwerau dyfarnu priodol.

Darpariaeth sefydliadau a darpariaeth wedi'i dilysu*		
Math o gwrs	Cofrestr	Dynodiad
Israddedig llawn-amser, israddedig rhan-amser, Meistr ôl-radd, Grantiau Myfyrwyr Anabl ôl-radd, doethurol	Cymeradwy (terfyn ffioedd) gyda chynllun mynediad a chyfranogiad	Awtomatig
	Cymeradwy (terfyn ffioedd) gyda datganiad mynediad a chyfranogiad	Awtomatig
	Cymeradwy gyda datganiad mynediad a chyfranogiad	Penodol
	Ddim ar y gofrestr	Penodol

* Mae'n rhaid i ddarparwyr â darpariaeth wedi'i dilysu gofrestru gyda'r Swyddfa Fyfirwyr, ac maent yn cael eu trin yr un fath â darparwyr sydd â Phwerau Dyfarnu Graddau.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod parhau i ddynodi cyrsiau penodol fesul cwrs yn helpu i gadw golwg ar yr hyn sy'n cael ei ddynodi ac yn helpu i leihau'r risg a allai fodoli wrth gyflwyno system reoleiddio newydd. Mae polisi wedi'i sefydlu ar gyfer dynodi cyrsiau penodol ar sail cyrsiau unigol. Bydd y polisi yn cael ei adolygu, ac mae'n caniatáu newid i system sy'n seiliedig ar ddynodi'n awtomatig bob cwrs ar y Gofrestr, os a phan fydd hynny'n briodol.

Fel arfer, mae dynodiad penodol yn digwydd fesul cwrs. Ar gyfer ceisiadau newydd am ddynodiad penodol, rydym yn ystyried a ddylid dynodi pob un o gyrsiau cymwys darparwr.

Mae'r rheoliadau cymorth i fyfirwyr, cyrsiau Meistr ôl-radd a chyrtsiau doethurol yn gwneud darpariaeth ar gyfer dynodi cyrsiau a gyflenwir gan un darparwr ar ran darparwr arall – darpariaeth freiniol – ac mae angen diweddarau'r sefyllfa yn briodol. Er nad yw'r rheoliadau cymorth i fyfirwyr yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyrsiau rhan-amser yn y cyswllt hwn, y cyfan sy'n ofynnol o dan y rheoliad perthnasol yw bod darparwr yn derbyn arian cyhoeddus, sy'n cynnig cyfleoedd eang ar gyfer cysylltiadau rhwng darparwyr.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r trefniadau dynodi arfaethedig ar gyfer darpariaeth freiniol.

Darpariaeth freiniol			
Math o gwrs	Breiniwr (arweinydd)	Sefydliad wedi'i freinio (darparwr)	Dynodiad
Israddedig llawn-amser, israddedig rhan-amser, Meistr ôl-radd, doethurol.	Cymeradwy (terfyn ffioedd) gyda chynllun	Ar y gofrestr	Awtomatig
	Cymeradwy (terfyn ffioedd) gyda datganiad	Ar y gofrestr	Penodol
	Cymeradwy gyda datganiad	Ar y gofrestr	Penodol

Bydd angen dynodiad penodol ar gyfer unrhyw ddarpariaeth freiniol lle nad oes dim ond un parti ar y Gofrestr. Gellir rhoi ystyriaeth i ddynodiad penodol ar gyfer trefniadau lle nad yw'r naill barti na'r llall ar y Gofrestr.

Y breiniwr sy'n gyfrifol am ddarpariaeth mewn trefniant breinio. Mae'r trefniadau a gynnigir uchod yn sicrhau cydbwysedd rhwng risg ac ymarferoldeb gweithredol.

Sefydliadau Addysg Bellach

Mae cyrsiau addysg uwch Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) yn Lloegr yn cael eu dynodi'n awtomatig ar sail y ffaith eu bod yn derbyn arian cyhoeddus. Nid ydym yn bwriadu gwneud darpariaeth arbennig fel bod hyn yn parhau yn y trefniadau newydd. Os nad yw SAB yn cofrestru, nid yw mesurau diogelu rheoleiddiol HERA yn berthnasol (ond gall rhai mesurau diogelu tebyg fod ar waith ar sail perthynas SAB â Llywodraeth y DU) felly ni ddylai'r cyrsiau hyn gael eu dynodi fel arfer. Bydd SAB yn darparu 1) eu graddau eu hunain (os oes ganddynt Bwerau Dyfarnu Graddau llawn, er nad ydym yn ymwybodol o unrhyw un sydd â phwerau o'r fath) 2) darpariaeth wedi'i breinio gan SAU neu 3) darpariaeth wedi'i dilysu gan SAU. Yn achos 1 a 3, bydd darpariaeth yn cael ei dynodi yn unol â chategori cofrestru'r SAB. Yn achos 2, bydd darpariaeth yn cael ei dynodi yn unol â chategori cofrestru'r breiniwr.

O safbwynt effaith weithredol (h.y. yn diystyru SAB nad oes ganddynt unrhyw fyfyrwr o Gymru), bydd nifer y SAB â myfyrwr sy'n colli dynodiad awtomatig eu cyrsiau wedi'i gyfyngu i'r rhai â darpariaeth freiniol sy'n dewis peidio â chofrestru. Mae'r darparwr hyn yn gallu gwneud cais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am ddynodiad penodol.

Amcangyfrifir mai ychydig ddegau o israddedigion rhan-amser o Gymru sy'n mynychu SAB yn Lloegr, a'u bod yn mynychu nifer fach o sefydliadau. Amcangyfrifir bod tua 250 o israddedigion llawn amser o Gymru yn mynychu tua 60 SAB yn Lloegr.

Mesurau diogelu yn y cyfnod pontio

Fel mater o bolisi ar gyfer myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, penderfynwyd y bydd angen mesurau diogelu yn y cyfnod pontio fel arfer os nad yw darparwr yn cofrestru. Bydd angen dynodi'r cwrs er mwyn cynorthwyo myfyrwyr i gwblhau eu cwrs – sef yr hyn a elwir yn '*teach-out*'. Hefyd, cynigir y dylai myfyrwyr a allai wynebu cynnydd mewn ffioedd oherwydd categori cofrestru darparwr dderbyn yr uchafswm a ganiateir o dan y rheoliadau fel bod modd iddynt gwblhau eu cwrs.

Bydd diogelwch trosiannol yn berthnasol i gohortau presennol. Ni fydd myfyrwyr sy'n mynychu darparwyr nad ydynt yn cofrestru yn derbyn cymorth, oni bai bod y darparwr yn sicrhau dynodiad penodol gan CCAUC ar gyfer myfyrwyr newydd.

Mae trefniadau dynodi o dan Gomisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i Gymru yn parhau i gael eu penderfynu. Nid yw'r cynigion hyn yn cael unrhyw effaith ar y cynigion a oedd yn destun yr ymgynghoriad *Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf (WG33639)*.

Effaith

O dan y cynigion hyn, gall y rhai sy'n cael caniatâd Adran 67 i aros fod yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr. Yn ôl y Swyddfa Gartref, cyrhaeddodd 220 o blant y DU ar eu pennau eu hunain yn 2016 a 2017. Cafodd tua 170 o'r plant hyn ddiogelwch ffoadur neu ddiogelwch dyngarol. Amcangyfrifir y bydd 480 o blant yn cyrraedd y DU erbyn 2020. Er nad oes modd darogan nifer y bobl a fydd yn cael caniatâd i aros o dan Adran 67 ac yn dod yn breswylwyr fel arfer yng Nghymru, disgwylir i'r niferoedd fod yn isel iawn.

Rydym yn credu y bydd y newidiadau arfaethedig yn annog myfyrwyr o gefndiroedd gwahanol i fynychu addysg uwch, ac y byddant yn hyrwyddo mynediad cyfartal.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu y bydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effaith negyddol neu niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac na fyddant yn cael unrhyw effaith o safbwynt trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fodd bynnag, rydym yn croesawu eich safbwyntiau.

Gweithredu

Yn dilyn yr ymgynghoriad ac unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud i fanylion y cynigion hyn, rydym yn bwriadu gweithredu'r trefniadau newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20. Bydd angen is-ddeddfwriaeth ac rydym yn rhagweld y byddwn yn gosod rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod gwanwyn 2019.

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei lunio a'i gyhoeddi cyn neu ar y dyddiad gosod deddfwriaeth.

Ein cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y dylid ychwanegu categori preswyllo newydd ar gyfer unigolion sy'n cael caniatâd i aros o dan Adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 at y rheoliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn fyfyrwyr cymwys at ddibenion cymorth i fyfyrwyr?
2. Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau arfaethedig ar gyfer dynodi cyrsiau yn Lloegr?
3. Eglurwch pa effaith, os o gwbl, y byddai'r polisi arfaethedig yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn benodol:
 - unrhyw effeithiau cadarnhaol neu niweidiol y polisi arfaethedig;
 - sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi er mwyn sicrhau na fyddai'n cael unrhyw effeithiau niweidiol neu er mwyn lleihau ei effeithiau niweidiol; a
 - sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol, neu er mwyn cynyddu ei effeithiau cadarnhaol.
4. Hoffech chi godi unrhyw fater arall yn ymwneud â'n cynnig?

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddiennw, ticiwch yma: